

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

This document is also available in English

POLISI SYSTEM GWYLIADWRIAETH

Awdur	Cyfarwyddwr Polisi, Sicrwydd a Chydymffurfiaeth
Fersiwn	1.3
Statws	Terfynol
Dyddiad Cymeradwyo	12 Mawrth 2026
Cymeradwywyd gan	Pwyllgor Craffu a Risg
Dyddiad Cychwyn	12 Mawrth 2026
Dyddiad yr adolygiad nesaf	31 Mawrth 2028
Cyfrifoldeb am adolygu	Cyfarwyddwr Polisi, Sicrwydd a Chydymffurfiaeth
Gwnaethpwyd Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg	Do
Ystyriwyd goblygiadau Iechyd a Diogelwch	Do

Fersiwn	Dyddiad	Disgrifiad	Adolygwyd/Addaswyd gan
1.0	28.11.25	Cwblhau Drafft y Polisi.	Cyfarwyddwr Polisi, Sicrwydd a Chydymffurfiaeth
1.1	12.03.26	Mân gywiriadau i rifau'r adrannau	Cyfarwyddwr Polisi, Sicrwydd a Chydymffurfiaeth
1.2	12.03.26	Cymeradwyo'r polisi gan y Pwyllgor Craffu a Risg	Cyfarwyddwr Polisi, Sicrwydd a Chydymffurfiaeth

Cynnwys

1. Ystod a Diben	3
2. Diffiniadau	4
3. Datganiad Polisi	4
3.1: Egwyddorion Allweddol	4
3.2: Ymrwymadau Allweddol	5
4. Cyfrifoldebau	7
5. Cwynion	8
6. Datganiad Asesiad Effaith Cydraddoldeb a’r Iaith Gymraeg	8
7. Cyfathrebu a Chadw	8

1. Ystod a Diben

1.1: Diben

Diben y Polisi hwn yw nodi dull strategol y Coleg o ddefnyddio systemau gwyliadwriaeth yn gyfrifol.

Y Coleg yw perchennog a gweithredwr yr holl systemau gwyliadwriaeth a ddefnyddir ar ei ystâd, gan gynnwys CCTV, ANPR a Fideo a Wisgir ar y Corff. Mae'r systemau wedi'u gosod, eu rheoli a'u llywodraethu gan y Coleg i gefnogi ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â diogelwch, diogelu, diogeled a gweithrediad effeithiol y campws. Mae'r holl offer, data a recordiadau o dan reolaeth y Coleg ac yn cael eu rheoli yn unol â'r Polisi hwn, Gweithdrefnau cysylltiedig â gofynion cyfraith diogelu data.

Dim ond lle mae'n angenrheidiol, yn gyfreithlon, yn gymesur ac yn dargedig y bydd gwyliadwriaeth yn cael ei defnyddio, yn unol â:

- GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018
- Deddf Diogelu Rhyddid 2012
- Cod Ymarfer Camera Gwyliadwriaeth (Swyddfa Gartref, 2021)
- Deddf Hawliau Dynol 1998 (Erthygl 8 yr Hawl i Fywyd Preifat)

Mae'r Polisi yn sefydlu ymrwymiad y Coleg i:

- Ddiogelu diogelwch ei gymuned.
- Diogelu ei safleoedd a'i asedau.
- Cefnogi ymchwiliadau cyfreithlon (adolygiadau diogelu, disgyblu, diogelwch a digwyddiadau).
- Sicrhau tryloywder ac atebolrwydd yn y ffordd y defnyddir data gwyliadwriaeth.
- Cynnal hyder y cyhoedd trwy lywodraethu clir, goruchwyliaeth briodol ac adolygiad rheolaidd.

1.2: Ystod

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob math o wylidwriaeth a weithredir gan y Coleg, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Systemau CCTV sefydlog
- Systemau ANPR a mynediad i gerbydau
- Fideo a wisgir ar y corff
- Unrhyw dechnolegau gwyliadwriaeth yn y dyfodol a gymeradwyir trwy broses Rheoli Newid y Coleg.

Mae'n berthnasol i'r holl staff, myfyrwyr, contractwyr, ymwelwyr a thrydydd parti a all ymddangos mewn recordiadau gwyliadwriaeth.

Mae'r manylion gweithredol ar gyfer gweithredu'r polisi hwn wedi'u nodi yn y Gweithdrefnau Systemau Gwyliadwriaeth, gan gynnwys gofynion ar gyfer gweithredwyr systemau.

1.3: Cysylltiadau â pholisïau a gweithdrefnau eraill

Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd ag ac yn cefnogi ystod o bolisïau a gweithdrefnau'r coleg i sicrhau dull unedig o reoli data a chofnodion. Dylid ei ddarllen ar y cyd â:

- Gweithdrefnau'r System Gwyliadwriaeth
- Y Polisi a'r Gweithdrefnau Diogelu Data
- Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Cofnodion

- Polisi a Gweithdrefnau Torri Data
- Polisi TG – Systemau Mewnol
- Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Polisi a Gweithdrefnau Arholiadau

1.4: Deddfwriaeth a Fframweithiau rheoliadol Perthnasol.

Mae'r polisi hwn wedi'i gynllunio i gydymffurfio â deddfwriaeth allweddol, fframweithiau rheoleiddio a chanllawiau'r llywodraeth a'r diwydiant, a chael ei lywio ganddynt, gan gynnwys:

- Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU)
- Deddf Diogelu Data 2018
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Diogelu Rhyddid 2012
- Cod Ymarfer Camerâu Gwyliadwriaeth
- Canllawiau Comisiynydd ICO a Biometreg a Chamerâu Gwyliadwriaeth

Bydd y Coleg yn ystyried safonau gweithredol, technegol a chymhwysedd perthnasol cymeradwy ar gyfer systemau gwyliadwriaeth (er enghraifft y gyfres BS EN 62676, BS7958 a BS8593) a, lle bo'n gymesur ac yn ymarferol, bydd yn gweithio tuag at gynnal y safonau hynny wrth ddylunio, gweithredu ac adolygu ei systemau.

2. Diffiniadau

2.1: **Systemau Gwyliadwriaeth:** Unrhyw gamera, sefydlog neu symudol, neu rwydwaith o gamerâu, a gaiff eu defnyddio at ddibenion diogelwch neu'n weithredol.

2.2: **Data Personol:** Gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn a adnabyddir, neu y gellid ei adnabod, a gipiwyd gan systemau gwyliadwriaeth.

2.3: **Rheolwr Data:** Y Coleg, fel y sefydliad sy'n penderfynu ar bwrpas a'r ffordd y gweithredir y systemau goruchwyllo.

2.4: **Prosesydd Data:** Trydydd parti sy'n gweithredu ar ran y Coleg, yn gyfrifol am sefydlu, cynnal a rheoli offer goruchwyllo neu ddata drwy gytundeb.

2.5: **Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA):** Asesiad sy'n gwerthuso ac yn lliniaru risgiau preifatrwydd a hawliau dynol sy'n berthnasol i weithredoedd goruchwyllo.

2.6: **Gweithredwr y System:** Aelod o staff y coleg a enwebwyd a hyfforddwyd i fonitro, adolygu neu adalw ffilm o systemau gwyliadwriaeth yn unol â Pholisi a Phrosesau Systemau Gwyliadwriaeth Y Coleg.

3. Datganiad Polisi

3.1: Egwyddorion Allweddol

Bydd y Coleg yn gweithredu pob system wylidwriaeth yn unol â'r egwyddorion canlynol:

- **Cyfreithlondeb:** Dim ond at ddibenion cyfreithlon a ddiffiniwyd yn glir y bydd gwyliadwriaeth yn cael ei defnyddio, h.y. diogelwch a diogeled ac atal a chanfod troseddau.
- **Angenrheidrwydd a Chymesured:** Ni fydd gwyliadwriaeth yn cael ei defnyddio lle gallai dull llai ymwthiol gyflawni'r un canlyniad.
- **Cyfngiad Diben:** Dim ond at y dibenion diffiniedig a restrir yn y polisi hwn y bydd data gwyliadwriaeth yn cael ei brosesu, ac unrhyw ddibenion cydnaws a gymeradwywyd trwy DPIA.
- **Tryloywder:** Bydd y Coleg yn cyfathrebu'n glir ynghylch presenoldeb, pwrpas a sail gyfreithlon gwyliadwriaeth trwy arwyddion a hysbysiadau preifatrwydd.
- **Atebolrwydd:** Bydd penderfyniadau sy'n ymwneud â mynediad at wylidwriaeth, datgelu a chadw yn gwbl olrheiniadwy, wedi'u cofnodi yn y Gofrestr Asedau Gwyliadwriaeth ac yn destun archwiliad arferol.
- **Lleihau Data:** Mae mynediad at luniau wedi'i gyfyngu i'r lleiafswm sy'n ofynnol at ddiben diffiniedig, cyfreithlon.
- **Diogelu Data trwy Ddylunio:** Bydd preifatrwydd a diogelu data yn cael eu hymgorffori o gam dylunio unrhyw system newydd neu uwchraddiad.
- **Cadw a Diogelwch:** Dim ond cyhyd ag y bo angen y bydd data a gesglir gan systemau gwyliadwriaeth yn cael ei gadw a'i ddiogelu trwy fesurau technegol a threfniadol priodol.
- **Adolygiad Rheolaidd:** Bydd systemau gwyliadwriaeth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth, cyfiawnhad ac effeithiolrwydd parhaus.

3.2: Ymrwymadau Allweddol

The College makes the following commitments to ensure that surveillance activities remain lawful, accountable and proportionate in practice.

3.1(i) Cyfreithlondeb

Dim ond at ddibenion sy'n gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw fel sy'n ofynnol o dan ofynion GDPR y bydd systemau gwyliadwriaeth yn cael eu defnyddio, fel sy'n ofynnol o dan ofynion GDPR y DU.

- Bydd pob gweithgaredd gwyliadwriaeth yn seiliedig ar sail gyfreithlon glir o dan GDPR y DU a'i gofnodi fel rhan o'r Gofrestr IAR a ROPA. Lle mae gwyliadwriaeth yn cipio data categori arbennig neu wybodaeth am droseddau troseddol, bydd amod priodol hefyd yn cael ei gofnodi.
- Bydd y Coleg yn sicrhau bod arwyddion a gwybodaeth preifatrwydd yn cyfleu presenoldeb a phwrpas gwyliadwriaeth yn glir.

3.1(ii) Angenrheidrwydd a Chymesured

Bydd y Coleg yn sicrhau bod unrhyw fesur gwyliadwriaeth yn angenrheidiol i gyflawni amcan(ion) wedi'u diffinio'n glir ac yn gymesur â'r broblem y mae'n ceisio mynd i'r afael â hi.

- Cyn addasu a gosod systemau neu swyddogaethau gwyliadwriaeth newydd, bydd y Coleg yn asesu risgiau preifatrwydd ac yn ceisio nodi a oes dewis arall llai ymwthiol i gyflawni'r amcan.
- Dim ond lle nad oes dulliau rhesymol a llai ymwthiol ar gael i gyflawni'r un pwrpas cyfreithlon y bydd systemau gwyliadwriaeth yn cael eu defnyddio.
- Bydd graddfa, lleoliad a galluoedd technegol y camerâu yn gymesur â'r risg a nodwyd, gan osgoi monitro ardaloedd lle mae gan unigolion ddisgwyliad uwch o breifatrwydd.
- Bydd y Coleg yn adolygu cyfiawnhad i sicrhau bod amcanion yn parhau i fod yn berthnasol a bod cymesured yn cael ei gynnal.

3.1(iii) Cyfyngiad Diben

Dim ond at y dibenion canlynol y bydd y Coleg yn defnyddio systemau gwyliadwriaeth i fonitro a chofnodi ardaloedd o safle'r Coleg:

- Er diogelwch staff, myfyrwyr, ymwelwyr, contractwyr ac unigolion eraill sy'n dod i mewn i safle'r Coleg.
- Er diogelwch asedau'r coleg.
- Er atal, lleihau, canfod ac ymchwilio i ddigwyddiadau troseddu.
- Er mwyn cynorthwyo i ymchwilio i achosion o dorri polisïau, gweithdrefnau, rheoliadau a chodau ymddygiad y Coleg.
- Er mwyn monitro a rheoli mynediad cerbydau, llif traffig a digwyddiadau dosbarthu.

3.1(iv) Tryloywder ac Atebolrwydd

Bydd y Coleg yn sicrhau bod yr holl weithgarwch gwyliadwriaeth yn dryloyw a bod atebolrwydd yn amlwg.

- Bydd arwyddion yn cael eu gosod yn glir wrth bwyntiau mynediad i ardaloedd sy'n cael eu monitro a byddant yn cynnwys manylion cyswllt hunaniaeth y Coleg, pwrpas y monitro a manylion cyswllt ymholiadau gwyliadwriaeth.
- Bydd y Coleg yn cynnal cofnodion manwl o DPIAs, rhestr eiddo asedau, logiau mynediad, datgeliadau ac adolygiadau yn unol ag egwyddor atebolrwydd GDPR y DU.

3.1(v) • Diogelu Data trwy Ddylunio

Bydd y Coleg yn ymgorffori preifatrwydd a diogelu data yn nyluniad a ffurfwedd pob system wyliadwriaeth.

- Bydd gosodiadau technegol yn sicrhau mai dim ond data sy'n angenrheidiol at y diben bwriadol sy'n cael ei gasglu a'i gadw.
- Ni fydd systemau newydd nag uwchraddiadau yn cael eu gweithredu heb Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA).
- Bydd lleoliad, datrysiaid a nodweddion recordio camerâu yn cael eu ffurfweddu i osgoi casglu data personol diangen neu ormodol.

3.1(vi) Cadw, Diogelwch ac Uniondeb

Bydd y Coleg yn cynnal rheolaethau diogelwch a chadw priodol i ddiogelu data gwyliadwriaeth.

- Bydd lluniau a data cysylltiedig yn cael eu storio'n ddiogel gyda mynediad cyfyngedig, amgryptio a dilysu aml-ffactor lle bo modd.
- Bydd cyfnodau cadw yn cael eu diffinio yn yr Atodlen Cadw Cofnodion.
- Bydd dileu diogel yn cael ei gymhwyso pan fydd cyfnodau cadw yn dod i ben. Bydd dileu yn awtomataidd oni bai bod y data wedi'i farcio fel tystiolaeth lle bydd yn cael ei ddileu â llaw yn unol â'r Atodlen Cadw Cofnodion.
- Bydd unrhyw dorri data sy'n ymwneud â gwybodaeth gwyliadwriaeth yn cael ei reoli o dan Bolisi Torri Data'r Coleg.

3.1(vii) Hawliau'r Unigolyn

Mae'r Coleg yn cydnabod ac yn cynnal hawliau unigolion mewn perthynas â data gwyliadwriaeth.

- Bydd y Coleg yn rheoli hawliau pynciau data mewn perthynas â systemau gwyliadwriaeth o dan y Polisi a'r Gweithdrefnau Diogelu Data.
- Bydd ceisiadau i gael mynediad at ddata gwyliadwriaeth yn cael eu hasesu i gydbwysu preifatrwydd, diogelu a rhwymedigaethau cyfreithiol.

3.1(viii) Adolygu Rheolaidd a Gwelliant Parhaus

Bydd y Coleg yn sicrhau bod systemau gwyliadwriaeth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd am gydymffurfiaeth, angenrheidrwydd a chymesuredd fel sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Gwyliadwriaeth.

- Cynhelir adolygiadau systemau blynyddol a nodir camau gweithredu a'u gweithredu yn ôl yr angen.
- Diweddarir DPIAs pan fydd systemau'n newid neu pan fydd risgiau newydd yn dod i'r amlwg.

4. Cyfrifoldebau

4.1: Llywodraethwyr

- Darparu goruchwyliaeth strategol a chefnogi diwylliant o atebolrwydd.
- Derbyn adroddiadau ar weithredu a chydymffurfiaeth y system oruchwyllo.

4.2: Uwch Dîm Arweinyddiaeth (SLT)

- Cymeradwyo diben ac ystod strategol y systemau goruchwyliaeth.
- Ensures compliance within their areas of responsibility.

4.3: Cyfarwyddwr Polisi, Sicrwydd a Chydymffurfiaeth (a'r DPO)

- Arwain ar ddatblygu, gweithredu ac adolygu polisiâu a gweithdrefnau gwyliadwriaeth.
- Sicrhau bod DPIAs yn cael eu cynnal a'u hadolygu.
- Cynghori ar gydymffurfiaeth â rhwymedigaethau diogelu data a hawliau dynol.
- Gwasanaethu fel pwynt cyswllt ar gyfer yr ICO a Chomisiynydd Biometreg a Chamerâu Gwyliadwriaeth.

4.4: Pennaeth TG

- Sicrhau diogelwch technegol systemau goruchwyliaeth, gan gynnwys rheoli mynediad a hygrededd y system.
- Cefnogi ymchwiliadau a gwelliannau yn achos toriad data.

4.5: Gweithredwyr y System

- Gweithredu system wyladwriaeth yn unol â'r polisi hwn a Gweithdrefnau'r System Wyladwriaeth.
- Sicrhau bod lluniau a data cysylltiedig yn cael eu cofnodi'n gywir a'u trin yn ddiogel.
- Adrodd ar unwaith am unrhyw gamddefnydd a amheuir, mynediad heb awdurdod neu gamweithrediad system i'r Cyfarwyddwr Polisi, Sicrwydd a Chydymffurfiaeth a Phennaeth TG.

4.6: Deoniaid, Cyfarwyddwyr, Rheolwyr Adrannau ac Arweinwyr Maes Dysgu

- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r Polisi a Gweithdrefnau Systemau Goruchwyliaeth o fewn eu meysydd.

4.7: Yr Holl Staff

- Deall a chydymffurfio â'r polisi hwn a Gweithdrefnau'r System Gwyliadwriaeth.
- Adrodd unrhyw bryderon, camddefnydd a amheuir neu faterion diogelu data ar unwaith i'r Cyfarwyddwr Polisi, Sicrwydd a Chydymffurfiaeth a'r Dirprwy Bennaeth Datblygu Systemau a Chyllido.

5. Cwynion

Dylai unigolion sydd â phryderon ynghylch defnydd y Coleg o systemau gwyliadwriaeth, y ffordd y maen nhw'n trin eu data personol neu benderfyniadau a wneir mewn ymateb i geisiadau hawliau gwrthrych data neu geisiadau rhyddid gwybodaeth anfon e-bost at dataprotection@stdavidscollege.ac.uk yn y lle cyntaf a fydd yn adolygu'r mater yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Data, Gweithdrefnau System Wylidwriaeth a Gweithdrefnau Rhyddid Gwybodaeth y Coleg. Os yw'r unigolyn yn parhau i fod yn anfodlon ar ôl adolygiad mewnol y Coleg, mae ganddyn nhw'r hawl i godi eu pryderon gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

6. Datganiad Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

Mae Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg wedi'i gwblhau. At ei gilydd, mae gan y Polisi gwyliadwriaeth a'r Gweithdrefnau cysylltiedig effaith gadarnhaol neu niwtral yn bennaf ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig. Mae'r mesurau sydd ar waith yn cryfhau diogelwch, yn cefnogi ymchwiliadau teg a diduedd ac yn atal ymddygiad gwahaniaethol. Mae llywodraethu cryf, y Prawf Mynediad Cyfiawn, adolygiadau blynyddol a phrosesau golygu yn sicrhau nad oes unrhyw grŵp gwarchodedig yn cael ei dargedu na'i effeithio'n anghymesur. Mewn perthynas â Safonau'r Iaith Gymraeg, mae'r effaith yn gadarnhaol neu'n niwtral. Mae arwyddion dwyieithog, gwybodaeth am breifatrwydd a llwybrau cyfathrebu yn sicrhau nad yw siaradwyr Cymraeg dan anfantais. Mae'r system yn gweithredu mewn ffordd niwtral o ran iaith gan alluogi cydymffurfiaeth â gofynion statudol.

7. Cyfathrebu a Chadw

7.1: Bydd y polisi hwn a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig ar gael i'r staff drwy lwyfan 'Every'.

7.2: Bydd y polisi'n cael ei gyhoeddi ar y wefan.

7.3: Bydd y polisi ar gael yn Gymraeg.